Salm 117

Llyfr Emynau yw Llyfr y Salmau. Nodweddir y Salmau gan angerdd teimlad a symlrwydd ymadrodd. Yn Salm 117 y mae nodweddion amlycaf y Salmydd i'w gweld mewn ychydig eiriau.

Pwy a folir? ***Molwch yr Arglwydd*** ... dyna wrthrych y mawl, yr Arglwydd, creawdwr y bydysawd a chynhaliwr dyn, y Duw sydd mewn perthynas agos ag Israel. Ef a alwodd ei bobl i'w wasanaethu, ac a'i gwaredodd; ei ofal ef drostynt a'i cadwodd yn fyw. Hwn yn unig sydd yn deilwng o fawl.

Pam y molir ef? ***Oherwydd mae ei gariad yn gryf tuag atom*** ... dyna ffynhonnell y mawl. Gair mawr yw 'cariad': gair pwysicaf y cymal hwn. Nid rhywbeth i athronydda uwch ei ben yw Cariad Duw ond rhywbeth i'w brofi, rhywbeth i'w dderbyn a'i fwynhau.

Sut y molir? ***Molwch yr Arglwydd, yr holl genhedloedd; clodforwch ef, yr holl bobloedd*** ... dyna ehangder y mawl. Er pwyslais y Salmau ar berthynas Duw ag Israel, nid Duw'r deml a'r genedl yn unig ydyw. Bwriad Duw yw *gweld* ***yr holl genhedloedd, yr holl bobloedd*** yn un ac yn gytûn yng nghwlwm ei Gariad.

GWEDDI

O Dduw ein Tad, cofiwn y Nadolig hwn sut y daeth y Gair Tragwyddol yn gnawd, a phreswylio yn ein plith.
Diolchwn i Ti na allwn mwyach feiddio dirmygu neu gam-ddefnyddio'r corff gan dy fod wedi ei wneud yn breswylfod i ti dy hun. Diolchwn i Ti fod yr Iesu wedi gwneud diwrnod o waith fel unrhyw lafurwr; iddo gyd-fyw mewn teulu, iddo orfod ennill ei fywoliaeth, iddo wynebu rhwystredigaeth a blinder pob gwaith beunyddiol a thrwy hynny ogoneddu pob gorchwyl.
Diolchwn i Ti am iddo rannu profiadau cymdeithasol a mwynhau priodasau a gwyliau a chiniawa. Gwna i ni gofio ei fod yn westai anweledig ym mhob cartref.
Diolchwn i Ti iddo yntau brofi cyfeillgarwch a gelyniaeth, llawenydd a phoen yn ei berthynas ag eraill. Diolchwn i Ti ei fod ef wedi profi popeth bynnag a all ddigwydd i ni, a thrwy hynny ei fod yn gallu ein cynorthwyo ni ym mhob sefyllfa. Na ad i ni anghofio ei fod yn deall pob agwedd o'n bywyd, a'i fod Ef wedi addo bod gyda ni i'n helpu bob amser.
Er mwyn ei Gariad
Amen.

(Cyfieithiad o weddi gan William Barclay; o *Perthyn* 2002 Rhifyn 111)